

Grŵp Trawsbleidiol ar y cyd – Y Grŵp Trawsbleidiol ar Brifysgolion a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Addysg Bellach a Sgiliau

Dydd Mercher 12 Gorffennaf 2023 / 12.30pm - 1.30pm (Yn y cnawd ac ar-lein)

Cofnodion

Croesawodd Hefin David AS (Cadeirydd) yr holl westeion i'r cyfarfod.

1. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – y Grŵp Trawsbleidiol ar Addysg Bellach a Sgiliau

Etholwyd John Griffiths AS yn Gadeirydd.

Etholwyd Colegau Cymru yn ysgrifenyddiaeth.

2. Prifysgolion Cymru

Rhoddodd yr Athro Maria Hinfelaar y wybodaeth ddiweddaraf am farn Prifysgolion Cymru ar adroddiad Hefin David AS.

Nodwyd y dylid croesawu cydweithio rhwng AB ac AU, ac mae'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer gweithio agosach a mwy clyfar.

3. Colegau Cymru

Rhoddodd Mark Jones ddiweddariad ar ran Colegau Cymru, a nododd fod y comisiwn yn cyflwyno cyfleoedd newydd.

Nodwyd bod adroddiad Hefin David MS yn glir ac yn ddiamwys, a bod rhai meysydd y mae angen eu gwella. Mae angen inni edrych i'r dyfodol ac ystyried hyn yn fwy gofalus.

4. Hefin David AS

Cyflwynodd Hefin David AS ei adroddiad ar bontio i addysg uwch.

5. Agor y drafodaeth

Nododd yr Athro Cara Aitcheson fod gwaith ar brentisiaethau gradd wedi bod yn llwyddiannus, bod mwy o waith i'w wneud ar y pwnc hwn, a chyfle i gydweithio.

Nododd Hefin David MS waith da MET Caerdydd a Phrifysgol De Cymru, a thynnodd sylw at bwysigrwydd aliniad fertigol.

Nododd Eliane (Cymwysterau Cymru) y byddai cyfleoedd i ysgolion ac addysg bellach gydweithio'n agosach.

Nododd Dafydd, y Coleg Cymraeg, ei optimistiaeth ynghylch y bartneriaeth rhwng AB ac AU. Nodwyd bod cyllid ysgolion a cholegau yn gystadleuol iawn, a bod hon yn her gynyddol.

Cododd yr Athro Cara Aitcheson fater ffioedd dysgu, a'r heriau sy'n wynebu prifysgolion o ran cyllid.

Awgrymodd Hefin David AS nad oedd dibynnu ar fyfyrwyr rhyngwladol yn ddatrysiad tymor hir.

Awgrymodd Lisa Childs fod y berthynas rhwng ysgolion a cholegau wedi newid; mae iaith yn allweddol ac mae dangos parch cyfartal atynt yn hanfodol.

Awgrymodd John Griffiths AS y dylai'r sgwrs a'r ddeialog barhau, ac nad yw materion yn mynd i gael eu datrys dros nos. Nododd y byddai'n dda cael trafodaeth arall ymhen rhyw chwe mis - Hefin i ddod yn ôl i'r Senedd yn y flwyddyn newydd, ac efallai i wahodd y Gweinidog.

5. Diwedd y cyfarfod

Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau.